
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Published May 2025
Cyhoeddwyd Mai 2025

# Membership Satisfaction Survey 2024
# Canlyniadau'r Arolwg Bodlonrwydd Aelodau 2024




# Respondents | Ymatebwyr

Daw'r canlyniadau a ganlyn o'r Arolwg Boddlonrwydd Aelodau a gynhaliwyd rhwng Mawrth ac Ebrill 2025, lle gofynnwyd i aelodau Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs feddwl am y gefnogaeth a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf (2024/25).


Roedd 502 o aelodau ar adeg yr arolwg. Rhagorwyd ar ein targed o gasglu ymatebion gan 25% o'r holl aelodau, a chyfanswm o 176 o ymatebion.

The following results are from the Membership Satisfaction Survey carried out between March and April 2025, where we asked members of Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs to think about the support received over the last year (2024/25)

There were 502 members at the time of the survey. We exceeded our target of collecting responses from 25% of all members with 176 responses in total.



# Survey Results | Canlyniadau'r Arolwg




Gofynnwyd i glybiau a gymerodd ran yn yr arolwg am ba mor hir yr oeddent wedi bod yn aelod o Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs.
Mae'n wych gweld bod y mwyafrif o'n haelodau yn aros gyda ni flwyddyn ar ôl blwyddyn a bod dros 68% o'n haelodau wedi bod gyda ni ers dros 5 mlynedd.

Clubs who took part in the survey were asked how long they had been a member with Clybiau Plant Cymru Kid's Clubs. It's wonderful to see that the majority of our members stay with us year on year with 68% of members being with us for over 5 years.

## Sylwadau gan glybiau | Comments from clubs:

"Mae Sian Jewell bob amser yn mynd gam ymhellach. Roedd hi'n gysylltiedig â ni bron i 10 mlynedd yn ôl pan wnaethon ni sefydlu ein busnes gyntaf ac mae ei chyngor wedi bod yn amhrisiadwy."


"Sian Jewell always goes above and beyond. She was involved nearly 10 years ago when we first set up our business and her advice has been invaluable."


"Dw i wedi cael cefnogaeth wych ers nifer o flynyddoedd gan Glybiau."

"I've had great support for a number of years from Clybiau."

"Mae'r gefnogaeth eleni wedi bod yn anhygoel."

"The support this year has been amazing."







Yn gyffredinol, roedd 98% o'r aelodau'n fodlon â'r cymorth a'r gwasanaethau a dderbyniwyd

Overall, 98% of members were satisfied with the support and services received







Cytunodd 100% o'r aelodau a dderbyniodd hyfforddiant ei fod o ansawdd ac yn hygyrch

100% of members who recieved training agreed it was quality and accessible







Cytunodd 99% o aelodau a fynychodd gweminarau yn y Clybiau Hwb eu bod yn llawn gwybodaeth ac yn llawn cymorth.

99% of members who attended webinars in Clwb Hwbs agreed they were informative and helpful

# Survey Results | Canlyniadau'r Arolwg









Cytunodd 99% o'r aelodau bod y staff wedi bod yn gwrtais, yn broffesiynol ac wedi ymateb i'm ceisiadau am gymorth mewn modd amserol a gwybodus

99% of members agreed staff have been polite, professional and have responded to my requests for support in a timely and knowledgeable manner







Cytunodd 100% o'r aelodau, a gafodd gyngor i sefydlu a/neu barhau i redeg y busnes gofal plant yn effeithiol, i'r cyngor fod yn briodol.

100% of members who recieved advice to set up and/or to continue to run the childcare business effectively agreed it was appropriate







Teimlai 99% o'r aelodau fod Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cynrychioli eu safbwyntiau a'u barn yn gywir ac yn gweithredu fel llais i Lywodraeth Cymru a'r gynulleidfa ehangach

99% of members felt Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs accurately represent their views and opinions and act as their voice to WG and wider audience

# Resources | Adnoddau


Gofynnwyd i glybiau pa adnoddau y maent wedi cael mynediad iddynt ac wedi elwa arnynt eleni

We asked clubs what resources they have accessed and benefitted from this year





Dywedodd 66%, gwybodaeth trwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol

66% said information through our social media platforms




Dywedodd 86%, ein he-byst Bwletin wythnosol

86% said our weekly Bulletin emails





Dywedodd 64%, adran adnoddau'r wefan

64 % said the members resources area of the website

# Resources | Adnoddau


Gofynnwyd i glybiau pa adnoddau y maent wedi cael mynediad iddynt ac wedi elwa arnynt eleni

We asked clubs what resources they have accessed and benefitted from this year





Dywedodd 52%, ein cylchgrawn chwarterol: Y Bont

52 % said our quarterly magazine: Y Bont




Dywedodd 55%, y templedi polisi a gweithdrefn Camu Allan

55% said the stepping Out policy & procedure templates




Dywedodd 38%, y Porth clybiau

38% said the club Portal




Dywedodd 100% o'r aelodau a holwyd y byddent yn argymell aelodaeth o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i Glybiau Gofal Plant Allysgol eraill (neu leoliadau gofal plant a Gwaith Chwarae eraill)

100% of members asked said they would recommend membership with Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs to other Out of School Childcare Clubs (or other childcare and Playwork settings)

# Recommendations | Argymhellion

Derbyniwyd yr argymhellion canlynol gan yr aelodau;

The following recommendations were received from members;

"Mwy o hyfforddiant ar reoli ymddygiad heriol ac ymdrin â phroblemau, ADHD ac Awtistiaeth"




"More training on managing challenging behaviour and handling meltdowns, ADHD & Autism"

Ymunwch â'n Clwb Hwb – Ail-fframio ymddygiadau, gyda'r siaradwr gwadd Sonia Wearne

**Bwciwch yma**

Join our upcoming Clwb Hwb – Reframing behaviours, with guest speaker Sonia Wearne

**Book here**



# Recommendations | Argymhellion

"Syniadau pellach ar weithgareddau y gallwn eu darparu ar gyfer plant oed clwb ar ôl ysgol"

Ar hyn o bryd rydym yn y broses o goladu'r holl weithgareddau mewn man canolog ar ein gwefan i bob aelod gael mynediad atynt. Rydym hefyd yn rhannu gweithgareddau yn ein cylchlythyr chwarterol, Y Bont.

**Mewngofnodi**

"Further ideas on activities we can provide for after school club aged children"

We are currently in the process of collating all activities in a centralised place on our website for all members to access. We also share activities in our quarterly newsletter YBont.

**Log in**

# Recommendations | Argymhellion

"Hyfforddiant mwy hygyrch ar gyfer clybiau y tu allan i oriau ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant ymlaen pan fyddwn ar agor. Hyd yn oed os oedd yn hygyrch ar-lein os yn bosibl."

"More accessible training for out of school clubs. Most of the training is on when we are open. Even if it was accessible online if possible."

Rydym yn ychwanegu mwy o hyfforddiant sydd ar gael i'w archebu at ein gwefan, rydym yn cynnal amrywiaeth o gyrsiau o opsiynau ar-lein, wyneb yn wyneb a hybrid. Mae'r cyrsiau'n amrywio o sesiynau dydd (1yh – 3yh) a sesiynau gyda'r nos (6.30yh – 8.30yh)

**Pob Hyfforddiant & Digwyddiad**

We are adding more training available to book to our website, we run a range of courses from online, face to face and hybrid options. Courses range from day sessions (1pm – 3pm) and evening sessions (6.30pm – 8.30pm)

**All Training & Events**

# Recommendations | Argymhellion

> Hoffem gael cyfarfodydd rheolaidd neu gael cynnig 'gwiriad busnes'

> We would like regular meetings or the offer of a 'business check'

Rydym yn cynnig adnoddau lluosog am ddim i bob aelod gan gynnwys:

- AGPA (Asesiad Gofal PlantAll-Ysgol)
- Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant
- Gwiriad Iechyd Diogelu
- Dadansoddiad Anghenion Marchnata
- Pecyn Cymorth Archwilio Gwrth-Hiliaeth

**Cysylltwch a Ni**

We offer multiple resources free to all members including:

- OSCA (Out of School Childcare Assessment)
- Training Needs analysis
- Safeguarding Health Check
- Marketing Needs Analysis
- Anti-racism Audit Toolkit

**Contact us**

# DYFYNIADAU I’W NODI

“Rydym wedi derbyn cefnogaeth aruthrol yn ein taith iaith Gymraeg. Gyda chymorth, anogaeth ac arweiniad Sian rydym wedi llwyddo i gyflawni ein haddewid Efydd ac Arian, yn ogystal â derbyn ein gwobr Pencampwr Cymraeg yn falch!”

“Rwyf wedi cael cefnogaeth gyson i’n lleoliad  trwy eich cynrychiolwyr,, sydd wedi anfon gwybodaeth ataf mewn e-bost, sydd wedi helpu gyda’n hadroddiad Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (DHG) a’n hadroddiad ansawdd gofal.”

“Hoffwn ddiolch i’r tîm a estynodd allan atom er mwyn ein helpu gyda’n brwydrau ariannol ac yna a ddaeth allan i ymweld â ni. Aethant gam ymhellach i’n helpu yn ystod y cyfnod anodd hwn, cynnig cyngor ar hyfforddiant presennol a gwahanol ffyrdd y gallem wella ac rwy’n edrych ymlaen at weithio gyda’r tîm wrth symud ymlaen.”

# NOTABLE QUOTES

“We have received enormous support in our Welsh language journey. With Sian’s help, encouragement and guidance we have been able to achieve our Bronze and Silver promise, as well as proudly receiving our Welsh Champion award!”

“I have had constant support through your representatives for our setting; they have emailed me information, which has helped with our SASS report and quality of care report.”

“I would like to thank the team who reached out to us in order to help us with our financial struggles and then came out to visit us. They went above and beyond in helping us during this difficult time, offered advice on current training and different ways we could improve and I am looking forward to working with the team going forward.”



## DYFYNIADAU I'W NODI

"Rwy'n teimlo bod ardal Aelodau y wefan yn ddefnyddiol iawn; rwy'n ei defnyddio'n rheolaidd; rwy'n gweld ei bod yn ffordd o gadw'n wybodus a chyfamserol. Rwy'n hoff iawn o'r 10 ffordd, pecyn adnoddau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (yr ICO), ac rwyf wedi defnyddio'r templedi polisi a gweithdrefnau Camu Allan i gofrestru gydag AGC. Mae'r ganolfan adnoddau yn adnodd llawn gwybodaeth i'w ddefnyddio ac mae'n llawn adnoddau. Mae mor fuddiol i'n lleoliad."

"Mae Nia Downes wedi bod yn gefnogaeth i mi gyda'r broses o gofrestru ag AGC. Mae hi'n cadw mewn cysylltiad â mi yn rheolaidd i weld sut rwy'n dod ymlaen. Mae Nia'n darparu llawer o wybodaeth ac mae bob tro'n yn ymateb i'm e-byst yn gyflym ac yn effeithlon. Anogodd Nia fi i gymryd rhan yn y Clybiau Hwb, yr Asesiad Gofal Plant All-Ysgol, Gwiriad Iechyd Diogelu a Phecyn Cymorth Gwrth-Hiliaeth, sydd i gyd wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Rwy'n teimlo fy mod y n cael cefnogath lawn gan Nia, ac yn gwybod y gallaf gysylltu â hi am unrhyw gyngor."

"Mae ein Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant, Sandra Welsby, wedi bod o gymorth mawr i ni. Mae wedi ein helpu i greu rhagolwg llif arian a llwyddo i gael grant cynaliadwyedd gan yr Awdurdod Lleol. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr holl amser a'r gefnogaeth y mae'n ei rhoi i ni."

## NOTABLE QUOTES

"I find the Members centre area of the website very helpful; I use it regularly; I find it is a way to keep informed and up to date. I particularly like the 10 ways, ICO resource pack and I have used the Stepping Out policy & procedure templates to register with CIW. The resource centre is an informative tool packed resources to utilize. It is so beneficial for our setting."

"Nia Downes has supported me with the CIW registration process. She keeps in touch with me regularly to see how I am getting on. Nia is very informative and always replies to my emails quickly and efficiently. Nia encouraged me to take part in Clwb Hwbs, the Out of School Childcare Assessment, Safeguarding Health check and Anti-Racism Toolkit, all of which have been very helpful. I feel fully supported by Nia and I know that I can contact her if I need any advice."

"Our Childcare Business Development Officer, Sandra Welsby, has been a great help to us. She has helped us create a cashflow forecast and succeed in gaining a sustainability grant from the LA. We really appreciate all the time and support she gives us."

# DYFYNIADAU I'W NODI

# NOTABLE QUOTES

"Mae'r hyfforddiant NVQ mewn Gwaith Chwarae wedi bod yn ardderchog. Mae sawl aelod o staff wedi'u hyfforddi yn lefel 2 a 3 dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae 2 aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant rheoli lefel 5. Mae'r tiwtoriaid i gyd wedi bod yn wych – Phoebe Wilson yn arbennig. Diolch!"

"The NVQ Playwork training has been excellent. Several staff members have been trained in level 2 and 3 over the past few years, and 2 staff members have completed level 5 management training. All the tutors have been great - Phoebe Wilson in particular. Diolch!"

"Mae'r hyfforddiant/gweminarau a fynychais wedi bod yn addysgiadol a chefnogol iawn. Roedd y gefnogaeth a roddwyd i aelod o'r staff a gwblhaodd ei lefel 3 yn wych."

"The training/webinars that I have attended have been very informative and supportive. The support given to a staff member completing her level 3 was fantastic."

"Mae Rachel yn ffynhonnell anhygoel o gefnogaeth i'n clybiau. Rwy'n gwybod ei bod hi yno bob amser os oes angen i mi ofyn y cwestiynau symlaf iddi; mae hi bob amser ar ben arall y ffôn ac rydym wrth ein bodd yn cael ei hymweliadau."

"Rachel is an amazing source of support for our clubs. I know that she is always there if I need to ask her the simplest of questions; she's always at the end of a phone and we love having her visits."

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Published May 2025
Cyhoeddwyd Mai 2025

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Cwmni cyfyngedig drwy warrant / Company limited by guarantee 4296436
Elusen Gofrestredig / Registered charity 1093260

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UW

Social Links
Dolenni Cymdeithasol